I GYFARCH MR. TREVOR EVANS AR EI YMDDEOLIAD

Cynefin wyt â llwybrau'r henfro hon,
A phlennaist yn ei maes o'th ddysg a'th ddawn;
Trewaist ei thannau yn y lleddf a'r llon,
Daw eco'r melodiau'n hyfryd iawn.
Cedwaist yn glos o fewn terfynnau'r Sir,
A rhoi o'th orau yn dy filltir sgwâr,
Bydd diolch yng nghalon Cardi'n oedi'n hir
Am swyddog cywir ac am enaid gwâr.
Rhennaist dy amryw ddoniau ymhob bro
Yn fawr dy ofal, sydd yn fwy na swydd:
Rhoist gariad yn dy gerydd lawer tro
A fydd i'r plant yn ganllaw ymhob llwydd.
Bydd ffrwyth dy lafur diwyd yn parhau
Yn olyd i'r dyfodol wedi'r hau.

Bydd melys dy brofiadau wedi hyn
Wrth droedio'n syn fyfyrgar ar dy daith;
Cei gyfle i oedi a meddwl pa mor wyn
A fu dy fywyd, a'th feunyddiol waith.
Wrth ddilyn gyrfa dy ddysgyblion gynt
A gwylio'u camre ar rodfeydd eu dysg;
Cei weld a chlywed am eu hwyl a'u hynt,
Lle buost yn ymhyfrydu yn eu mysg.
Er dod i ben gaethiwed dydd ac awr,
Y dyfal baratoi, a'r lludded llwyr
Doed iti bob diddanwch gyda'r wawr
A rhyddid i fwynhau pan ddelo'r hwyr.
O bob cysuron fydd yn eiddo i ti
Ni ddaw dim gwell na'n dymuniadau ni.

Henorhown i ti'n mawrhad
A hwyl ar d'ymddeoliad.

Mr. Huw Huws.